**Eitem ar yr agenda: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Y PANEL GWEITHREDOL**

**25 GORFFENNAF 2005**

Adroddiad gan y Clerc

**ADOLYGIAD O'R CÔD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL**

**Diben yr adroddiad**

1 Ystyried a ddylid cyflwyno ymateb gan y Panel Gweithredol i bapur ymgynghorol a deddfwriaeth ddrafft Llywodraeth y Cynulliad.

**Cefndir**

2 Cafodd y côd ymddygiad ei adolygu gan grŵp a fu'n adrodd yng Ngorffennaf 2004, er na chafodd yr adroddiad a'r gorchymyn drafft a fyddai'n gweithredu ei argymhellion eu cyhoeddi at ddiben ymgynghori tan 28 Ebrill 2005. Gellir gweld copi o'r ddogfen ymgynghorol a dogfennau eraill ar

www.cymru.gov.uk/subilocalgov/content/consultation/conduct/part3/letter-w.htm

3 Bu'r Pwyllgor Safonau yn ystyried y mater yn fanwl ar 1 Gorffennaf ac mae wedi cyflwyno'r ymateb sydd ynghlwm.

**Cyngor**

4 Yn gyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnig yr eglurhad yr oedd ei eisiau – er enghraifft, trwy osod yr egwyddorion a'r côd ymddygiad yn yr un offeryn statudol a thrwy greu'r gwahaniaeth rhwng buddiannau personol a rhagfarnol. Fodd bynnag, nid ystyrir bod rhai o'r cynigion yn hollol ymarferol, megis y gofyniad i fuddiannau gael eu datgan ar lafar yn ystod cyfarfod ac yn ysgrifenedig cyn neu yn union wedi'r cyfarfod.

5 Bydd gofyn i'r Awdurdod, pa orchymyn bynnag a wneir gan y Cynulliad maes o law, i newid ei gôd ymddygiad. Byddai adroddiad yn ceisio'r penderfyniadau angenrheidiol gan yr Awdurdod yn dod gerbron yn unol â hynny.

**Argymhelliad**

6 Gwahoddir y Panel i ystyried a yw'n dymuno cyflwyno ymateb i bapur ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad.